Hawdd i'w ddeall

# Rhowch Gynnig Arni

## Cyllid am roi cynnig ar y celfyddydau mewn ysgolion a'r tu allan



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Gyngor Celfyddydau Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Canllawiau Rhowch Gynnig Arni**'.

**Hydref 2023**

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government
Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®
Gwasanaeth Cerdd Cenedlaethol Cymru
National Music Service Wales

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Lle mae'r ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl **Cyngor Celfyddydau Cymru**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** celf.cymru

**Ebost:** grantiau@celf.cymru

**Ffôn:** 03301 242 733

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, **cliciwch yma.**

**Rhif trwydded Photosymbols 40352724**

# Cynnwys

**Am y cyllid** ........ **4**

Mwy am y gronfa Rhowch Gynnig Arni ........ 5

**Pwy sy'n gallu gwneud cais?** ........ **7**

**Faint ydw i'n gallu gwneud cais amdano?** ........ **10**

**Sut i wneud cais** ........ **11**

**Pryd ydw i'n gallu gwneud cais?** ........ **12**

**Cwestiynau** ........ **13**

# Am y cyllid



Fe ddylai plant allu cymryd rhan yn y celfyddydau. Maen nhw'n gallu rhoi cynnig ar eu gwaith celf eu hunain, neu weld gwaith pobl eraill.




Mae gennym ni **2 gronfa** i athrawon i roi cyfle i ddysgwyr gymryd rhan yn y celfyddydau:



1. **Cronfa Ewch i Weld** – lle mae ysgolion yn gallu mynd â disgyblion i weld celf. Er enghraifft, theatr neu oriel.



2. **Cronfa Rhowch Gynnig Arni** - lle mae ysgolion yn archebu rhywun i gynnal sesiynau i ddisgyblion roi cynnig ar y celfyddydau.



Mae ysgolion yn gallu gwneud cais am arian a mwy nag unwaith y flwyddyn.




Mae gwybodaeth am **Ewch i Weld** ar gael yma: https://creativelearning.arts.wales/cy/ariannu/dysgu-creadigol/ewch-i-weld

## Mwy am y gronfa Rhowch Gynnig Arni



Mae'r **gronfa Rhowch Gynnig Arni** yn grant hyd at £1,500 o bunnoedd.



Mae athrawon yn gallu archebu rhywun sy'n gwneud **y celfyddydau mynegiannol** – mae hyn yn meddwl celf sy'n helpu pobl i fod yn greadigol a mynegi eu hunain.



Mae ar gyfer dysgwyr rhwng 3 ac 16 oed.



Mae’n gallu digwydd yn yr ystafell ddosbarth neu yn rhywle arall.



Mae ‘**Rhowch Gynnig Arni’** yn cynnwys y pum maes celf yma

- celfyddyd
- dawns
- drama
- ffilm a chyfryngau digidol
- cerddoriaeth.

# Pwy sy'n gallu gwneud cais?




Mae pob ysgol sy'n cael ei rhedeg gan gynghorau yng Nghymru yn gallu gwneud cais.




Maen nhw'n gallu gwneud cais am yr arian. Neu mae sefydliad celfyddydol yn gallu gwneud cais.




Rydych chi'n gallu gwneud cais hyd yn oed os ydych chi wedi gwneud cais am gyllid arall.

**Dyma rai enghreifftiau o weithgareddau eraill sydd wedi'u hariannu:**



- Roedd dysgwyr wedi mynd i stiwdio argraffu. Fe wnaethon nhw ddysgu sut i wneud printiau sgrin.



- Fe wnaeth ysgol ofyn i nifer o gerddorion i ymweld. Cafodd y plant gyfle i ddysgu am wahanol offerynnau a gwahanol fathau o gerddoriaeth.



Rydyn ni yn ariannu gweithgareddau sy'n ymwneud â rhoi cynnig arni, yn hytrach na phrosiect cyflawn.



Fe fyddwn ni yn ariannu'r gweithgaredd ei hun, ond dim y costau eraill.

**Lle mae gweithgaredd yn gallu digwydd?**



- Mewn ysgol.
- Mewn lleoliad celfyddydol.
- Lle arall yng Nghymru.




Mae'n gallu bod yn un sesiwn neu nifer o sesiynau.



Dydyn ni ddim yn gallu ariannu gweithgareddau sydd wedi dechrau yn barod.

# Faint ydw i'n gallu gwneud cais amdano?




Rydych chi'n gallu gwneud cais am hyd at £1,500 o bunnoedd.




Ond mae'n rhaid i chi roi rhywfaint o'ch arian eich hun i mewn. Er enghraifft, os ydy gweithgaredd yn costio £1,000 i'w redeg, fe fyddwn ni yn rhoi £900 o bunnoedd i chi.



Mae hyn hyd at 9 o bob 10 punt sydd eu hangen. Mae hyn hefyd yn cael ei alw yn 90%.



Fe fydd angen i chi ddweud mwy wrthyn ni am y costau a rhoi rhestr o bob cost i ni.




Dydych chi ddim yn gallu gwneud cais am arian i wneud gweithgaredd ar-lein.

# Sut i wneud cais



I wneud cais, rhaid i chi gofrestru ar ein porth ar-lein yn gyntaf. Rydych chi'n gallu dod o hyd i hyn yma: https://porth.celf.cymru/




Fe fydd angen i chi gwblhau cais am yr arian yma. Arhoswch 5 diwrnod ar ôl cofrestru ar y porth.

**Os ydych chi angen help, cysylltwch â ni yn:**



**Ebost:** grantiau@celf.cymru



**Ffôn:** 029 2044 1300 neu 03301 242733

# Pryd ydw i'n gallu gwneud cais?




Rydych chi'n gallu gwneud cais ar unrhyw amser.




Fe fyddwn ni yn rhoi gwybod i chi o fewn 4 wythnos os ydych chi'n cael yr arian.




Gwnewch yn siŵr fod o leiaf 5 wythnos cyn i'r gweithgaredd ddechrau.

# Cwestiynau



Anfonwch e-bost i ni gydag unrhyw gwestiynau yn:
dysgu.creadigol@celf.cymru




Rhowch eich rhif ffôn i ni os ydych eisiau i ni eich ffonio'n ôl.